Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION CYFARFOD O FWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 24 Medi 2024, am 10am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neil Prior | Aelod Cabinet dros Gymunedau, Gwelliant Corfforaethol a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Sir Penfro (CSP) (Cadeirydd) |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog Gweithredol, PLANED |
| Ceri Jackson | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (ymadawodd am 11.16am) |
| Christine Harley | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (ymadawodd am 10.54am) |
| Philip Kloer | Prif Weithredwr Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (ymadawodd am 11.42am) |
| Ben Williams | Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Jessica Bickerton | Prif Weithredwr, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Darren Thomas | Pennaeth Seilwaith, CSP |
| Tom Moses | Un Llais Cymru |
| Rachel Wolfendale | Cydlynydd Prosiect, Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Ardiana Gjini | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP (cyrhaeddodd am 10.12am) |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru (cyrhaeddodd am 10.36am) |

*Cymorth / ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Rachael Rimmer | Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, CSP |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, CSP |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, CSP |
| Mydrian Harries | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Linda Jones | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
| Y Cynghorydd John Davies | CSP |
| Rhian Bennett | Yr Uwch-reolwr Comisiynu, CSP |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.02am

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan yr unigolion a restrir uchod.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Cofnod y camau gweithredu**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

**3. Sesiwn 'sbotolau' ar y cynllun llesiant – prosiectau natur, datgarboneiddio a newid hinsawdd**

Cyflwynodd DT ei hun fel cadeirydd newydd yr is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Hinsawdd, ar ôl cymryd yr awenau oddi wrth CD ym mis Gorffennaf 2024. Fel rhan o'i rôl o fewn CSP, mae'n gyfrifol am yr her sero net, gwasanaethau amgylcheddol ehangach, gwastraff ac adeiladu.

Nododd DT fod cynllun y prosiect yn ymdrin â thri maes:

- ***Bioamrywiaeth a'r argyfwng natur*** – Arweinir y ffrwd hon gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro, gydag Ant Rogers yn gweithredu fel y swyddog arweiniol.

- ***Ymaddasu i newid yn yr hinsawdd*** – Arweinir y ffrwd hon gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro, gyda Tom Luddington yn gweithredu fel y swyddog arweiniol.

- ***Datgarboneiddio a sero net*** – Y swyddog arweiniol ar gyfer y ffrwd hon yw Dan West, rheolwr newydd Tîm Ynni a Chynaliadwyedd CSP.

Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cafwyd trafodaeth am y pethau y mae angen i'r is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Hinsawdd fynd i'r afael â nhw wrth symud ymlaen. Y prif bwyntiau a ddeilliodd o'r drafodaeth hon oedd y canlynol:

- Rhoddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bwyslais cryf ar barhau gyda'r gwaith argyfwng natur.
- Mae newid diwylliant ac ymddygiad yn fater pwysig y mae angen mynd i'r afael ag ef.
- Mae'r maes gwaith sy'n cael ei gwmpasu gan y prosiectau hyn yn eang ac mae ceisio sicrhau mwy o welededd a phoblogrwydd yn anodd.
- Mae angen i'r grŵp ymchwilio i'r gallu i gyflawni gwaith a chanolbwyntio ar brosiectau llai a all helpu i gyfleu cynnydd.
- Roedd y cysylltiad rhwng gwaith amgylcheddol a chymunedol yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig.
- Mae angen edrych ar amcanion hirdymor a chanolbwyntio ar sut y gall gweithgarwch ar raddfa fach fwydo i mewn i'r rhain.

Rhoddodd DT ddiweddariad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo ym mhob un o'r tri maes prosiect:

*Bioamrywiaeth a'r argyfwng natur:*

- Mae nifer o gamau gweithredu yn digwydd o fewn gwaith bioamrywiaeth, ond mae'r mwyafrif yn cael eu cynnal ar lefel unigol yn hytrach nag ar y cyd fel bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen nodi pa gymorth y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei ddarparu er mwyn helpu i geisio ehangu ar y camau gweithredu hyn.

- Cynhyrchwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur, ond ar hyn o bryd, nid oes cynllun cyflawni ynghlwm wrth hwn. Bu llawer o anhawster wrth geisio trosi'r strategaeth bresennol yn gyfres o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni a'u monitro.
- Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ystyried cynhyrchu cynllun cyflawni o'r blaen, ond roedd pryderon ynghylch sut y byddai'r cynllun hwn yn ychwanegu gwerth. Nododd DT y gallai datblygu cynllun cyflawni helpu i fywiogi dull cydweithredol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae'n bosibl y bydd cyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio perchnogaeth tir ar draws sefydliadau amrywiol i helpu i gyflawni prosiectau natur yn Sir Benfro.

*Ymaddasu i newid yn yr hinsawdd:*

- Mae strategaeth ymaddasu i newid hinsawdd lefel uchel wedi'i hariannu a'i chynhyrchu drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Fforwm Arfordir Sir Benfro yn gwneud darn o waith ar hyn o bryd i ddiweddaru cynnydd yn erbyn amrywiol gamau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth hon.
- Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran cefnogi cymunedau cynaliadwy ar hyd yr arfordir. Mae prosiect cyfredol yn helpu cymunedau yn Amroth a Saundersfoot i addasu i newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, mae cymunedau wedi bod yn ei chael yn anodd ei dderbyn, ac nid ydynt yn deall yn llawn y datrysiadau realistig sydd ar gael i'w cefnogi.
- Mae angen i waith cymunedau gael ei gyflwyno'n ehangach i fynd i'r afael â meysydd eraill, ond mae angen cymorth gan sefydliadau partner a all efallai ymgysylltu'n well â'r cymunedau hyn. Dywedodd DT fod CSP yn sefydliad mawr gyda chyfrifoldebau statudol, ond nad yw yn y sefyllfa orau i gyfathrebu'r materion hyn i gymunedau. Gallai sefydliadau partner, fel Fforwm Arfordir Sir Benfro, helpu i gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â chymunedau, a fyddai hefyd yn hyrwyddo cydweithio o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

*Datgarboneiddio a sero net:*

- Mae'r prosiect hwn yn dod yn fwy rhanbarthol wrth i bob awdurdod lleol ddatblygu cynllun ynni ardal leol, sy'n cyfrannu at strategaeth ranbarthol.
- Mae Dan West yn frwd dros drafod y cynllun ynni ardal leol â'r is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Hinsawdd gan ddefnyddio'r dull hwn i nodi'r camau cyflawni y mae eu hangen ar gyfer Sir Benfro.
- Bydd cyflwyniad ar y cynllun ynni ardal leol yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Hinsawdd.

Trafododd DT ei fod ef, NP ac LR wedi cael cyfarfod gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 30 Gorffennaf 2024, lle trafodwyd y cwestiynau canlynol:

1. *Beth ydyn ni'n ei wneud yn dda o ran hinsawdd a natur?* – Mae datblygu strategaeth ymaddasu i newid hinsawdd, cynllun gweithredu adfer natur a chynllun ynni ardal leol wedi bod yn gadarnhaol yn Sir Benfro. Mae Sir Benfro hefyd wedi bod yn gwneud yn dda o ran ailgylchu gwastraff, ac fel ardal yn arwain ym maes ymaddasu i newidiadau arfordirol.
2. *Beth yw'r problemau mawr o ran cyrraedd targedau?* – Ymhlith y prif broblemau yn Sir Benfro y mae diffyg capasiti, diffyg cytundeb ynghylch beth yw'r prif faterion, diffyg arweinyddiaeth ar adegau, sicrhau bod y gynrychiolaeth gywir ar wahanol grwpiau, diffyg cynnydd cydweithredol tuag at y prosiect argyfwng natur, a'r angen i sbarduno grwpiau cymunedol yn well.
3. *Ar beth y gall swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ganolbwyntio ei hymdrechion i'n cefnogi ni?*

Gwahoddodd NP y sawl a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau am y prosiectau ar thema'r amgylchedd. Mynegodd mai pwrpas y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw bod yn agored, yn onest ac yn gydweithredol, a'i bod yn dda bod yn onest ynghylch y materion anodd sy'n cael eu hwynebu.

Dywedodd TM fod brwdfrydedd dros gynghorau tref a chymuned mewn ardaloedd yr effeithir arnynt i gymryd rhan a mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am ddatrysiadau i'r materion hyn. Nododd fod Gyda'n Gilydd dros Newid yn helpu i gyflawni cynlluniau gweithredu o ran llesiant mewn cymunedau, a'u bod yn edrych ymlaen at weithio ar y cyd â gwahanol asiantaethau i gyflawni'r cynlluniau hyn. Tynnodd TJ sylw at y ffaith y byddai'n ddefnyddiol gweld sut mae sefydliadau'n perfformio ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y gall partneriaid rannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda.

Nododd TJ ei bod yn ymddangos bod hyfforddiant ar lythrennedd carbon wedi arafu yn ystod y misoedd diwethaf, a bod hyn yn rhywbeth y gellid ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Eglurodd DT bod rhwystr wedi bodoli a oedd yn atal gwybodaeth rhag cael ei rhannu'n rhwydd rhwng gwahanol sefydliadau. Dywedodd mai'r bwriad yw parhau i gyflwyno hyfforddiant, ond bod trafodaethau ar y gweill i ystyried sut i ddosbarthu'r hyfforddiant hwn a gyda phwy y gellir rhannu'r wybodaeth.

Holodd TJ a PK a oedd problemau o ran cynhyrchu cynllun cyflawni ar gyfer y Cynllun Gweithredu Adfer Natur o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol. Amlygodd TJ fod rhywfaint o arian yn y maes adfer natur ar hyn o bryd, ac y byddai'n drueni pe na ellir cydgysylltu'r gwaith hwn. Cadarnhaodd DT fod cyllid yn broblem wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, ond bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mynegi pryder yn flaenorol ynghylch yr hyn y mae'r gwaith hwn yn ceisio ei gyflawni. Dywedodd pe bai'r gwaith yn cael ei gefnogi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i ddatblygu, bydd angen tystiolaeth y bydd yn werthfawr. Cwestiynodd PK pam na wneir cais am arian grant, ac a allai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio ar y cyd, neu neilltuo rhywun, i weithio ar hyn. Dywedodd DT fod bioamrywiaeth yn faes arbenigol, ac nad oes gan y bobl sydd â'r wybodaeth i wneud y gwaith hwn y gallu i wneud hynny.

Dywedodd TJ ei bod yn ymddangos bod rhwystr o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n atal gwaith ar gyfer y cynllun cyflawni rhag dechrau. Awgrymodd y gellid trefnu cyfarfod untro gyda phartneriaid allweddol sy'n teimlo efallai fod ganddynt yr arbenigedd i geisio datrys y mater hwn. Nododd LR mai'r prif rwystr ar gyfer y gwaith hwn yw'r gallu i neilltuo rhywun i ysgrifennu cynllun cyflawni. Mynegodd y gallai hyn gael ei godi mewn cyfarfod o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro, ac y gallai arbenigwyr yn yr ystafell gytuno ar yr hyn y mae angen ei gyflawni a beth yw'r prif gamau gweithredu. Dywedodd hefyd y byddai'n hapus i wirfoddoli i fynd i'r cyfarfod hwn a strwythuro'r wybodaeth hon ar ffurf cynllun cyflawni. Cadarnhaodd yr aelodau fod hon yn ymddangos fel ffordd addas o fynd i'r afael â'r broblem.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Codi mater y cynllun cyflawni mewn cyfarfod Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro er mwyn ceisio cael y bartneriaeth i gytuno ar rai camau gweithredu, a nodi cynnig LR i symud y gwaith hwn yn ei flaen **(DT)**
- Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gadarnhau gyda'u sefydliadau bod y bobl gywir yn mynd i gyfarfodydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro er mwyn sicrhau y gellir cynnal trafodaethau defnyddiol. **(Pawb)**

Er gwybodaeth, cyflwynodd DT y cynllun gweithredu ar gyfer y cynllun ynni ardal leol yn gryno i'r grŵp. Dangosodd hyn sut y gellid llunio cynllun gweithredu a sut y gellir ei gyflawni.

## 4. Diweddariadau ar y prosiect Cynllun Llesiant

*Cryfhau Cymunedau*

Dosbarthwyd cyflwyniad ar y prosiect Cryfhau Cymunedau fel rhan o becyn agenda'r cyfarfod. Rhoddodd NP ddiweddariad ar ychydig o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn:

- Mae'r is-grŵp Cryfhau Cymunedau yn parhau i gyfarfod, gyda'i gyfarfod olaf yn cael ei gynnal ar ddechrau mis Medi.
- Mae llawer o gamau gweithredu yn digwydd yn y maes gwirfoddoli, ac mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro yn arwain ar hyn gyda chefnogaeth sefydliadau lleol eraill.
- Un o'r prif bryderon ar gyfer Cryfhau Cymunedau yw bod prosiectau'n cael eu cefnogi gan gyllid tymor byr, fel cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (blynyddol) a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2024).
- Mae gwaith menter gymdeithasol yn cael ei wneud gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro. Mae seminar i aelodau wedi'i gynnal ynghylch chwalu camsyniadau i helpu aelodau etholedig lleol i fod yn ymwybodol o'r gweithgareddau sy'n digwydd yn eu hardal.
- Mae gwaith trosglwyddo asedau cymunedol yn cael ei arwain gan PLANED a CSP.
- Mae proffiliau cymunedol a chynlluniau llesiant yn cael eu harwain gan Gyda'n Gilydd dros Newid a CSP.

Eglurodd AG y bydd maes gwaith Cryfhau Cymunedau yn cael sylw fel rhan o'r Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant newydd a arweinir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y rhaglen hon yn helpu i ddod â dulliau o wella iechyd a llesiant i mewn i ddull system gyfan. Bydd AG yn trafod y rhaglen hon â NP, sef cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cwestiynodd PK pa mor gyflym y bydd gwaith proffil cymunedol Gyda'n Gilydd dros Newid yn datblygu, ac a oes unrhyw beth y gall partneriaid ei wneud i'w gefnogi. Eglurodd TM fod amserlen heriol o dri mis i ddwyn ynghyd broffiliau cymunedol a chynlluniau gweithredu sydd wedi'u creu ar y cyd, a bod cyfarfod rhanddeiliaid wedi'i gynnal i edrych ar amserlen arfaethedig y prosiect. Y nod yw bod y gwaith hwn yn cynnwys amrywiaeth o gymunedau gwahanol, gan gynnwys cymunedau Cymraeg, cymunedau arfordirol a chymunedau trefol. Er mai'r bwriad yw edrych ar ryw dair i bum cymuned dros y cyfnod o dri mis, mae tua 10 cymuned wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan.

Gofynnodd PK am eglurhad ar y dull o fynd ati i gael strategaeth wirfoddoli. Cadarnhaodd JB fod is-grŵp yn gweithio ar hyn ar hyn o bryd, ac mai Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro sy'n cydlynu'r gwaith. Nododd mai'r bwriad yw cael amrywiaeth eang o safbwyntiau ar rôl gwirfoddolwyr, a bod ymgynghorydd sydd ag arbenigedd mewn gwirfoddoli mewn lleoedd heblaw Sir Benfro yn unig wedi bod yn ymwneud â'r gwaith hwn. Bydd hyn hefyd yn cysylltu â gwaith arall ar basbortau gwirfoddoli a gwirfoddoli gyda chymorth gweithwyr. Ychwanegodd JB fod y gwaith hwn i'w lansio yn chwarter 1 y flwyddyn nesaf, ac y gellid trafod hyn ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

Dywedodd AG ei bod wedi cael sgyrsiau blaenorol gyda Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro ar gyfarwyddo'r cynllun gwirfoddoli ar gyfer gweithwyr i gyd-fynd â'r prif fodel cymdeithasol ar gyfer iechyd. Soniodd hefyd fod cyflogwyr wedi wynebu rhai rhwystrau gyda'r cynllun, fel nodi'r hyn sy'n cyfrif fel gwirfoddoli a faint y dylid ei dalu am y gwaith hwn. Nododd AG y gallai hwn fod yn gyfle da i ddatblygu rhai diffiniadau a chytundebau ar y cyd ynghylch materion y gallai pob sefydliad eu hwynebu. Cytunodd PK a dywedodd fod angen i fudiadau ystyried faint o amser y byddent yn disgwyl i bobl ei dreulio yn gweithredu mewn cymunedau ac yn gwirfoddoli. Holodd a fyddai gwirfoddoli yn cael ei

ddefnyddio i greu cymunedau cysylltiedig, neu a fyddai'n canolbwyntio ar fylchau yn y ddarpariaeth bresennol a chefnogi pobl gartref. Dywedodd PK fod ganddo ddiddordeb mewn clywed barn yr ymgynghorydd arbenigol, sydd wedi cael ei wahodd i adolygu'r gwaith gwirfoddoli.

Dywedodd IT nad yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn adnabyddus iawn mewn cymunedau, a bod angen iddo feddwl am sut i gyfathrebu'n well â chymunedau i ddangos y gwahaniaeth y mae'n ei wneud. Cytunodd BW a dywedodd y dylai fod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ffordd o fesur effaith pob maes â blaenoriaeth fel grŵp cyfunol. Nododd y byddai'n dda cael fframwaith ar waith i fesur ac arddangos effaith grwpiau yn unigol ac ar y cyd, i helpu i ddangos effaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Awgrymodd NP nad yw mor bwysig i bobl fod yn ymwybodol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cyn belled â'u bod yn gallu teimlo ei effaith. Dywedodd, os yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am fod yn fwy gweladwy am ei waith, y gellid cynnal sgwrs y tu allan i'r cyfarfod i ddechrau llunio cynllun cyfathrebu. Soniodd TM hefyd bod angen ffordd o ddwyn ynghyd newyddion a gwybodaeth gadarnhaol o wahanol gymunedau, fel bod pobl sy'n byw yn y cymunedau hyn yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd rhagddo. Cytunodd y gallai cynllun cyfathrebu fod yn gam defnyddiol er mwyn cyflawni hyn. Nododd AG nad yw cynllun cyfathrebu yn ddefnyddiol oni bai ei fod, mewn gwirionedd, yn helpu i ledaenu neges y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac na ddylid ei ystyried os na fydd yn ychwanegu gwerth at waith y grŵp.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Trefnu trafodaeth gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer y bwrdd. **(LR)**

*Tlodi*

Rhoddodd DM ddiweddariad ar brosiectau tlodi:

- Mae'r awdurdod lleol yn ystyried prynu'r platfform LIFT (traciwr teuluoedd incwm isel). Bydd y traciwr hwn yn golygu bod modd casglu gwybodaeth am ddatganiadau incwm a budd-daliadau pobl. Bydd cymryd yr wybodaeth hon yn helpu i dargedu pobl nad ydynt yn hawlio budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael. Nododd DM y byddai'n ddefnyddiol cael cefnogaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y platfform hwn cyn ei fod yn cael ei gynnig i'r uwch-dîm arwain.
- Mae cydweithwyr yn Cyngor ar Bopeth wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais ar gyfer cyllid y Gronfa Arloesi Tlodi Plant. Dyfarnwyd £25,000 iddynt wneud gwaith dilynol ar argymhellion a godwyd mewn ymchwil tlodi y llynedd.
- Mae datblygiad y grŵp profiad bywyd wedi arafu oherwydd newidiadau mewn personél yn Cyd-gynhyrchu Cymru a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Fodd bynnag, mae cylch gorchwyl amlinellol wedi'i ddatblygu a bydd DM yn gofyn i gydweithwyr flaenoriaethu'r gwaith hwn er mwyn sefydlu'r grŵp.
- Cafodd cyfarfod y grŵp tlodi ar gyfer mis Medi ei ganslo oherwydd nifer fawr o ymddiheuriadau am absenoldeb. Mae cyfarfod arall wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr, ond mae'r grŵp yn anelu at aildrefnu'r cyfarfod a gafodd ei ganslo ar gyfer mis Hydref. Soniodd DM hefyd bod gwaith tlodi yn mynd rhagddo ac nad yw'n dibynnu ar y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ai peidio.
- Mae DM yn ystyried datblygu cynllun ailgylchu esgidiau pêl-droed a rygbi, gan fod hwn wedi'i addo yn yr Uwch-gynhadledd Tlodi ym mis Chwefror. Y nod yw bod rhieni yn rhoi esgidiau i'r cynllun a fydd yn helpu pobl i arbed arian ac yn hybu ailgylchu. Roedd y cynllun peilot ar gyfer y rhaglen yn llwyddiannus, ond daeth y cynllun i ben oherwydd diffyg adnoddau. Mae DM mewn cysylltiad â chydweithwyr yn Chwaraeon Sir Benfro a'r Banc Babanod i helpu i geisio ailddechrau'r cynllun hwn.

- Mae'r prosiect People PWR, a weithredir gan Gyngor ar Bopeth, wedi helpu i wneud y mwyaf o incwm budd-daliadau i dros 40 o bobl yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn hon. Yn ystod y pum mis, hawliwyd tua £106,000 drwy'r prosiect hwn gan helpu i gynnal y bobl hynny sy'n byw ar drothwy tlodi. Bydd y platfform LIFT newydd yn helpu i ehangu'r gwaith hwn ymhellach os caiff ei gymeradwyo.

Pwysleisiodd NP bwysigrwydd cynnal cyfarfodydd is-grŵp rheolaidd ar gyfer tair ffrwd waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac anogodd y grŵp Tlodi i aildrefnu'r cyfarfod a ganslwyd.

Holodd AG a fyddai'r platfform LIFT newydd yn helpu i gefnogi unigolion i ddatblygu sgiliau, a chyfeirio neu roi rhybuddion i helpu i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Cadarnhaodd DM y byddai'r cynllun amlinellol yn cynnwys cyfeiriad at hyn.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Ceisio aildrefnu cyfarfod y Grŵp Tlodi a ganslwyd ar gyfer rhywbryd ym mis Hydref. **(DM)**

## 5. Adolygu'r cylch gorchwyl

Cafodd y cylch gorchwyl ei rannu eto â'r grŵp er budd aelodau newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd LR pe bai gan unrhyw un awgrymiadau am yr hyn y gellid ei newid yn y cylch gorchwyl, i roi gwybod iddi. Soniodd hefyd y bydd yn golygu'r cylch gorchwyl i adlewyrchu'r ffaith mai PLANED sydd bellach yn gyfrifol am gyhoeddi cofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Awgrymodd NP y dylai'r cylch gorchwyl adlewyrchu egwyddor y grwpiau aur, arian ac efydd yn gliriach. Cytunodd PK fod strwythur mewnol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hollbwysig i'r ffordd y mae'n gweithredu, ac y gallai fod cyfle i edrych ar yr hyn y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus eraill wedi'i wneud a dysgu ohonynt. Dywedodd CG bod ganddi gyfarfod y diwrnod canlynol lle byddai'n ceisio codi hyn a gweld a oes unrhyw enghreifftiau.

Dywedodd JB nad yw'r cylch gorchwyl yn nodi sut mae aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu adnoddau i gyflawni newid trawsnewidiol. Soniodd hefyd fod deng mlwyddiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2025, ac y dylai'r cylch gorchwyl adlewyrchu sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud cynnydd yn erbyn y ddeddfwriaeth hon.

Holodd TM a fyddai'n bosibl ystyried gwahodd y cyhoedd i drafodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Eglurodd LR fod y cylch gorchwyl eisoes yn caniatáu i'r cyhoedd fod yn bresennol mewn cyfarfodydd a gofyn cwestiynau gyda chaniatâd y cadeirydd, a bod y bobl hynny sy'n gweithio mewn cymunedau yn rhydd i hyrwyddo'r cyfle hwn. Nododd RW fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi gwahodd aelodau o'r cyhoedd i gyfarfod yn ddiweddar i drafod pwynt agenda yn ymwneud â chau canolfan ymwelwyr. Dywedodd NP fod esiampl Ceredigion yn ymddangos fel mwy o fater trefniadol na allai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei ddatrys. Eglurodd CG ac AG y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn y sefyllfaoedd hyn, yn gallu mynd i'r afael â'r goblygiadau ehangach a sut i fynd ati i ddarparu gwasanaethau i leihau'r effeithiau ar gymunedau. Tynnodd LR sylw at y ffaith y byddai'r ymagwedd hon yn peri risg y byddai aelodau o'r cyhoedd yn holi sefydliadau am eu gwaith dydd i ddydd, sydd y tu allan i gwmpas y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd NP ac ychwanegodd mai'r ffordd orau o gynnwys y cyhoedd yw drwy is-grwpiau efydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Trafod y newidiadau awgrymedig i'r cylch gorchwyl â NP/NE y tu allan i'r cyfarfod a gwneud y newidiadau angenrheidiol **(LR)**

## 6. Trafodaeth – cyfarfodydd 2025

Dywedodd LR fod ganddi restr o ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2025, ond yr hoffai gael rhywfaint o adborth ynghylch a fydd y rhain yn achosi problemau i aelodau. Nododd y gallai symud cyfarfodydd fel eu bod yn disgyn ar ddiwrnodau eraill yr wythnos achosi problemau i wahanol bartneriaid. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai symud cyfarfodydd i ddydd Mercher yn achosi gwrthdaro mewn perthynas â Chyngor Sir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac felly ni ddylid ystyried hyn.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Creu pôl piniwn ar Doodle gyda dyddiadau cyfatebol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn nesaf a'i ddosbarthu i bartneriaid i gael adborth. **(LR)**

## 7. UNRHYW FATER ARALL

Nid oedd unrhyw fater arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.56am

**Cofnod o'r camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4 | Codi mater y cynllun cyflawni mewn cyfarfod Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro er mwyn ceisio cael y bartneriaeth i gytuno ar rai camau gweithredu, a nodi cynnig LR i symud y gwaith hwn yn ei flaen | Y cyfarfod nesaf | DT | |
| 2 | 4 | Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gadarnhau gyda'u sefydliadau bod y bobl gywir yn mynd i gyfarfodydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro er mwyn sicrhau y gellir cynnal trafodaethau defnyddiol | Cyn gynted â phosibl | Pawb | |
| 3 | 5 | Trefnu trafodaeth gyda phartneriaid sydd â diddordeb i ystyried datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Erbyn y cyfarfod nesaf | LR | Cyflawn |
| 4 | 6 | Ceisio aildrefnu cyfarfod y Grŵp Tlodi a ganslwyd ar gyfer rhywbryd ym mis Hydref | Cyn gynted â phosibl | DM | |
| 4 | 7 | Trafod y newidiadau awgrymedig i'r cylch gorchwyl â NP/NE y tu allan i'r cyfarfod a gwneud y newidiadau angenrheidiol | Erbyn y cyfarfod nesaf | LR / NP / NE | Cyflawn |
| 5 | 7 | Creu pôl piniwn ar Doodle gyda dyddiadau cyfatebol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn nesaf a'i ddosbarthu i bartneriaid i gael adborth. | Cyn gynted â phosibl | LR | Cyflawn |